
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Nodyn gwybodaeth

# Ffeil Ffeithiau: Moresg *(Ammophila arenaria)*

Mae moresg yn blanhigyn brodorol yn y DU. Mae'n rhywogaeth gyffredin ar dwyni tywod, ac yn tyfu i hyd at 1m o uchder. Mae i'w weld ar hyd llawer o arfordir Cymru drwy gydol y flwyddyn ond mae'n blodeuo rhwng Gorffennaf ac Awst.






**Planhigyn moresg 3 oed**

Mae moresg yn laswellt bras pigog a thrwchus sy'n llwydwyrdd ei liw. Mae'r dail wedi'u rholio am i mewn ac mae'r planhigyn yn tyfu sbigynnau blodau euraidd trwchus. Mae moresg yn rhywogaeth arloesol ac mae wedi addasu'n arbennig i fyw yn amodau cras y twyni tywod. Mae'n ffynnu mewn twyni tywod symudol a lled-sefydlog sy'n agored a deinamig, sy'n draenio'n rhwydd a lle mae maethynnau yn brin.

Gallwch ddysgu mwy drwy wylio'r fideos hyn gan Twyni ar Symud: **Habitat Type: Embryo Dunes, Devon - YouTube** a **A-Z of Dynamic Dunescapes and Sand Dune Conservation**

Lluniwyd yr adnoddau hyn gan brosiect Twyni ar Symud ac fe'i hariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Rhaglen LIFE. Sylwch nad yw'r adnoddau hyn ar gael yn Gymraeg.

Ewch i **wefan** Twyni ar Symud i gael rhagor o wybodaeth.

## Sut mae moresg wedi addasu?

Mae gan foresg ddail sy'n gallu cyrlio yn silindr i amddiffyn y stomata y tu mewn, sy'n cyfyngu ar faint o ddŵr gaiff ei golli ac sy'n gwarchod y planhigyn rhag sychu yn amgylchedd sych a gwyntog y twyni. Mae'r stomata, sef yr agoriadau y mae anwedd dŵr yn symud drwyddynt allan o'r planhigyn, yn swatio mewn pantiau o fewn troeon y dail er mwyn gallu dal eu gafael ar gymaint o ddŵr â phosibl. Mae moresg yn un o arbedwyr dŵr gorau byd natur, ac fel seroffyt (sef planhigyn sy'n gallu dygymod ag ychydig iawn o ddŵr) mae'n gallu byw mewn amgylchedd lle na all llawer o rywogaethau oroesi.

Mae ganddo systemau hir o wreiddiau sy'n helpu i sefydlogi'r tywod i greu egin-dwyni a thwyni melyn lled-sefydlog. Gall y gwreiddiau oroesi o dan lawer iawn o dywod a gallant fod yn fetrau o hyd. Gall y dail dyfu'n gyflym drwy bennau'r twyni, yn gyflymach na chyfradd dyddodiad y tywod. Mae coesynnau ymgripiol o'r enw rhisomau yn tyfu ar draws ac yna'n taflu mwy o strwythurau gwreiddiau ar eu hyd, gan sefydlogi'r twyni ymhellach. Yn y modd hwn, mae moresg yn galluogi'r twyni melyn i ehangu dros ardaloedd eang a thyfu'n drawiadol o uchel.

## Sut mae moresg yn cael ei ddefnyddio?

Ar un adeg byddai moresg yn cael ei gynaeafu a'i wehyddu'n fatiau i wneud toeau sguboriau, rhwydi pysgota, rhaffau ac esgidiau. Gellid ei ddefnyddio i wneud papur hyd yn oed. Yn draddodiadol, byddai gan deuluoedd eu llecyn answyddogol eu hunain o dwyn y gallent ei ddefnyddio i gynaeafu moresg, ond yn aml byddai'r pentref cyfan yn casglu'r moresg gyda'i gilydd.

Mae rôl moresg yn sefydlogi'r twyni ac yn eu helpu i dyfu yn hysbys ers blynyddoedd lawer. Roedd y twyni tywod yn amddiffynfeydd morol pwysig a gwaharddwyd cynaeafu moresg am ganrifoedd ar hyd arfordir Ynys Môn. Sylweddolai llywodraeth Elisabeth y cyntaf fod moresg yn atal y twyni rhag erydu, ac fe ddaeth yn drosedd gosbadwy ei ddadwreiddio.

I ddysgu mwy ac archwilio perthynas pobl â thwyni tywod a sut mae'r adnoddau naturiol maent yn eu darparu wedi cael eu defnyddio dros amser, yna rhowch gynnig ar y gweithgareddau hyn:

Cynllun gweithgaredd – Twyni tywod dros amser – Cwningar Niwbwrch

Cardiau adnoddau – Twyni tywod dros amser – Cwningar Niwbwrch

## Pam mae moresg mor bwysig?

Mae moresg yn helpu i ddal tywod yn ei le ac ffurfio twyni tywod. Mae twyni tywod yn amddiffynfeydd naturiol i dir ac aneddiadau isel, sy'n arbennig o bwysig yn wyneb cynnydd yn lefel y môr a stormydd cynyddol yn sgil newid hinsawdd. Mae twyni tywod yn helpu i gynnal llif dŵr ac yn cynnal peillwyr hanfodol ar gyfer ein cnydau, fel gwenyn a gloÿnnod byw. Maent hefyd yn llefydd ardderchog i gadw'n heini a mwynhau'r awyr agored.

Mae twyni tywod yn gartref i lawer o blanhigion ac anifeiliaid prin a phwysig ac maent yn rhai o'r cynefinoedd mwyaf naturiol a chyforiog o rywogaethau yng Nghymru. Un enghraifft fechan yw madfall y tywod, sy'n byw mewn systemau twyni arfordirol lle mae moresg yn brif fath o orchudd. Madfall brin iawn yw hon yng Nghymru a dim ond mewn lleoliadau penodol ar hyd arfordir Gogledd Cymru mae i'w gweld.

Gellir defnyddio moresg fel strategaeth peirianneg feddal naturiol gymharol rad, er enghraifft, os oes angen adeiladu twyni tywod o flaen ffyrdd, rheilffyrdd neu dai sy'n wynebu erydiad neu lifogydd.

### Dysgu yn ein hamgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk  0300 065 3000**

SoLIFE: LIFE 17 NAT/UK/000023
Mae prosiect Twyni Byw-Sands of LIFE wedi cael cyllid gan Raglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

NATURA 2000

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**